ATODIAD 4 – Sesiwn Gwrandawiad 4 Pwynt Gweithredu 14 Newidiadau o Faterion yn Codi Arfaethedig i Bolisi H8

Polisi H8 – Bod yn Gymwys i Gael Tai Fforddiadwy ® 34.60

Bydd deiliadaeth pob tŷ fforddiadwy yn cael ei chyfyngu drwy amod / rhwymedigaeth cynllunio i'r rhai:

1. **sydd mewn 'angen o ran tai' fel y'i diffinnir gan gynllun dyraniadau cyffredin y Cyngor a'i ganllawiau gweithdrefnol; a**
2. **sydd â 'chyswllt lleol' fel y'i diffinnir gan gynllun dyraniadau cyffredin y Cyngor a'i ganllawiau gweithdrefnol. Rhaid i berson(au) cymwys fod â chyswllt â'r 'Gymuned Leol' a ddiffinnir fel a ganlyn:**
   i. **Yn gyntaf, ardal y cyngor cymuned ynghyd ag ardaloedd cynghorau cymuned neu gynghorau plwyf sy'n ffinio'n uniongyrchol â'r ardal honno (gan gynnwys y rhai y tu allan i Bowys).**
   ii. **Yn ail, y sir berthnasol.**
   iii. **Yn drydydd, gweddill Powys.**
   iv. **Yn bedwerydd, ardaloedd awdurdodau lleol cyffiniol.**

Rhaid gwneud ymdrechion sylweddol am 3 mis o leiaf a rhaid iddynt gael eu profi'n foddhaol cyn ehangu'r ardal gymwys yn unol â phob cam o'r drefn rhaeadru a nodir uchod.

Gall polisi gosod lleol gael ei gymhwyso gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig dim ond ar ôl cytundeb ysgrifenedig o flaen llaw â'r Cyngor.

4.6.31 Nod Polisi H8 yw bodloni Nodyn Cyngor Technegol 2[1], sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ddiffinio'r angen lleol yn eu cynllun datblygu. Mae Datganiad Polisi Cynllun Dyraniadau Cyffredin y Cyngor yn egluro sut y mae angen yn cael ei asesu ac yn diffinio sut y mae 'Band Cyswllt Lleol' yn cael ei ystyried. Bydd deiliadaeth pob cartref fforddiadwy yn cael ei sicrhau yn unol â Pholisi H8. Bydd rhagor o fanylion am y diffiniadau a'u hasesiadau yn cael eu darparu yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ynghylch Tai Fforddiadwy

[1] Paragraff 10.16, TAN2